

Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: 06/12/2020

A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Mae'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yn nodi cynigion ar gyfer diwygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar newid deddfwriaethol ar bob cam o gylch oes adeiladau, yn ogystal â nodi dyheadau i newid diwylliant o ran y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli.

Er nad yw'r cynigion yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg, byddant yn cefnogi Thema 2: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a Thema 3: Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun Cymraeg 2050.

Bydd ein cynigion yn cael effaith ar gyrrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a hefyd ar unigolion. Mae'r cyrrff yn y sector cyhoeddus y bydd ein cynigion yn effeithio arnynt oll yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a byddem yn disgwyl iddynt hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Byddwn yn annog cyrrff yn y sector preifat i ystyried y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd ohoni lle y bo'n bosibl.

Preswylwyr mewn adeiladau amlfeddiannaeth sydd wrth wraidd ein cynigion ac rydym am weld mwy o ymdrech gan y rheini sy'n rheoli adeiladau i ymgysylltu â phreswylwyr yr adeiladau hynny. Rydym wedi diffinio'r adeiladau sydd o fewn cwmpas y cynigion hyn fel Categori 1¹ neu Gategori 2². Ar adeiladau Categori 1 y bydd yr effaith fwyaf. Fel rhan o hyn, byddem yn annog ymdrechion i ystyried proffil iaith preswylwyr, a ddylai gefnogi defnydd o'r Gymraeg.

¹ Bydd adeiladau Categori 1 yn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth â chwe llawr neu lawr sy'n 18 metr neu fwy o uchder uwchlaw lefel y ddaear, ond bydd yn bosibl newid y diffiniad hwn os bydd y dystiolaeth yn awgrymu y dylid ei ehangu.

² Byddai adeiladau Categori 2 yn eiddo preswyl â dwy annedd neu fwy nad ydynt yn fwy na 18 metr o uchder.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yn nodi ein cynigion ar gyfer diwygio diogelwch adeiladau yng Nghymru a chyfundrefn diogelwch adeiladau newydd. Rydym yn cynnig y dylai'r gyfundrefn gwmpasu pob adeilad preswyl amlfeddiannaeth – hynny yw, adeiladau lle mae dwy neu fwy o anheddau, p'un a rennir drws ffrynt i'r adeilad hwnnw ai peidio.

Rydym yn disgwyl y bydd rhai o'n cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y bydd rhywfaint o wybodaeth o bosibl ar gael yn Gymraeg.

Rydym yn cynnig y gofyniad ar gyfer cyfres o rolau deiliaid dyletswydd drwy gamau dylunio ac adeiladu adeilad ac yn ystod y cam meddiannu, y bydd gan bob un ohonynt rolau a chyfrifoldebau penodol.

Mae ein cynigion yn ei gwneud yn ofynnol, yn ystod y cam meddiannu ar gyfer adeiladau Categori 1, i ddeiliaid dyletswydd ymgysylltu â phreswylwyr mewn ffordd ystyrllon, rhagweithiol a chydweithredol. Fel rhan o'r dyletswyddau hyn, bydd yn ofynnol i'r deiliad dyletswydd (y Person Atebol) ystyried proffil iaith y preswylwyr yn ei adeiladau wrth ymgysylltu â nhw, gan ddarparu gwybodaeth iddynt am yr adeilad ac am ddiogelwch tân yn yr adeilad a sicrhau eu bod yn ymwybodol sut y gallant gael gafael ar y wybodaeth ac ym mha fformat (gan gynnwys pa iaith). Bydd hyn nid yn unig o fudd i'r rheini y mae angen gwasanaethau arnynt yn Gymraeg, ond o bosibl i siaradwyr ieithoedd eraill hefyd.

Bydd rhai o'r adeiladau y mae ein cynigion yn eu cwmpasu yn rhan o'r sector tai cymdeithasol. Mae darparwyr tai cymdeithasol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y cam dylunio a'r cam adeiladu, cynigir y dylid dileu'r elfen o ddewis o ran rheoli adeiladu ac mai awdurdodau lleol fydd yn darparu gwasanaeth Rheoli Adeiladu ar gyfer pob adeilad preswyl yng Nghymru sydd dros 18m o uchder. Mae Awdurdodau Lleol, yn ogystal ag Awdurdodau Tân ac Achub, yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Mae'r oruchwyliaeth reoleiddiol bresennol yng Nghymru wedi'i rhannu rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub a'r 22 o Awdurdodau Lleol. Er nad ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar fframwaith rheoleiddio'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd, byddem yn rhagweld y byddai cyfranogiad y cyrff hyn yn parhau.

Nid ydym o'r farn y byddai ein cynigion yn cael unrhyw effaith sylweddol ar eu safonau gweithredol, safonau gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaethau na'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu neu swyddogaethau eu cyflawni.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi rhai opsiynau posibl ar gyfer model rheoleiddio, ond ni phenderfynwyd ar ei leoliad o fewn y gyfundrefn, sut y caiff ei strwythuro a'i ariannu a materion eraill. Byddwn yn sicrhau y caiff asesiad pellach o'r effaith ar y Gymraeg ei gynnal pan gaiff fersiwn derfynol y model rheoleiddio ei gyflwyno.

Mae'n debygol y bydd angen uwchsgilio'r gweithlu dylunio ac adeiladu rywfaint er mwyn rhoi ein cynigion ar waith. Yn unol â darpariaeth hyfforddiant arall yng Nghymru, byddem yn disgwyl i ddarparwyr ystyried y Gymraeg wrth gynllunio'r trefniadau ar gyfer cyflwyno eu cyrsiau hyfforddiant, fel y nodir yn Cymraeg 2050.

Bydd ein cynigion yn berthnasol i adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, ble bynnag y byddant wedi'u lleoli yng Nghymru. Dim ond effaith fach iawn y disgwyliwn i'n cynigion ei chael ar faterion fel cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, dysgwyr Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Byddem yn gobeithio y byddai preswylwyr sy'n siarad Cymraeg mewn adeiladau Categori 1 o fewn cwmpas ein cynigion o bosibl yn cael mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'r deiliad dyletswydd (Person Atebol) yn ystod y cam meddiannu.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw grwpiau sy'n siarad Cymraeg sy'n berthnasol i'r cynigion hyn, ond byddem yn croesawu gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn yr un modd, byddem hefyd yn croesawu awgrymiadau ar gyfer sut y gallwn gefnogi'r Gymraeg ymhellach fel rhan o'n cynigion.

Ar ôl ymgynghori ar y Papur Gwyn, byddwn yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn mynd ati i fireinio ein cynigion cyn cyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau bresennol a deddfwriaeth yn y maes hwn.